Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Fonesig Gillian Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

22 Mawrth 2011

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol,

**PWYLLGOR CYNALIADWYEDD: PRIF-FFRYDIO CYNALIADWYEDD MEWN PORTFFOLIOS GWEINIDOGOL**

Gydag etholiad y Cynulliad ar y gorwel, ac ansicrwydd o'r herwydd ynghylch ffurf Llywodraeth Cymru ar ôl 5 Mai 2001, penderfynodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol y dylem gyfeirio ein llythyr ar Brif-ffrydio Cynaliadwyedd atoch chi fel Ysgrifennydd Parhaol.

Rydym yn hyderus y byddwch yn sicrhau fod casgliadau'r Pwyllgor yn cael sylw dilys gan y Llywodraeth bresennol a'r un newydd fel ei gilydd.

**Cefndir**

Fis Tachwedd 2008, cytunodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i graffu ar y modd y mae Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n prif-ffrydio cynaliadwyedd yn eu portffolios. Gwnaed hyn i nodi deng mlynedd ers sefydlu dyletswydd gyfreithiol y Cynulliad i hybu datblygiad cynaliadwy.

Yn dilyn yr ymchwiliad hwnnw, lluniodd y Pwyllgor adroddiad byr. Mae'r adroddiad hwnnw wedi'i gynnwys fel atodiad i'r llythyr hwn.

Yn wyneb y pryderon a fynegwyd yn ystod y sesiynau hynny, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n edrych eto ar y mater yng ngwanwyn 2011. Ar gyfer y sesiynau dilynol hyn, mynychodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u swyddogion y pwyllgorau canlynol:

- 27 Ionawr 2011

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8009
E-bost / Email: sustainability.comm@wales.gov.uk

- Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 3 Chwefror 2011
    - Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig;
    - Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol;
    - Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb;

- 17 Chwefror 2011
    - Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth;
    - Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
    - Swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

Diben y llythyr hwn yw amlinellu darganfyddiadau'r Pwyllgor o'r sesiynau hyn a chyflwyno diweddariad i'r adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn y sesiynau gwreiddiol yn 2008.

Gwneir yr argymhellion yn y llythyr hwn yn ychwanegol at y rhai a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad gwreiddiol a byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe bai'r Llywodraeth, yn ei hymateb, yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion gwreiddiol hynny.

## <u>Y materion yn codi o Graffu ar y Gweinidogion</u>

### Cyflwyniad

Fel y digwyddodd yn yr ymchwiliad gwreiddiol, canfu'r Pwyllgor bod y dystiolaeth a gawsom gan y Gweinidogion a'r swyddogion a fynychodd y pwyllgor yn dangos ymgysylltu i amrywiol raddau â'r agenda cynaliadwyedd yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor bod y dystiolaeth a gawsom y tro hwn yn dangos lefelau gwell o ymgysylltu yn y rhan fwyaf o adrannau, er bod rhai meysydd yn peri pryder o hyd. Amlinellir y rhain yn fanylach isod.

### Egluro swyddogaethau - pwy sy'n gyfrifol am beth?

Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r Gweinidogion yn deall eu rôl o ran cyflawni amcanion cynaliadwyedd yn eu portffolios.

Fodd bynnag, roedd diffyg eglurder o hyd ynghylch swyddogaethau'r Gweinidogion y mae eu portffolios yn gorgyffwrdd yn sylweddol â phortffolios Gweinidogion eraill. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o siomedig â thystiolaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb – a oedd yn ailadrodd y sefyllfa ddwy flynedd yn ôl.

Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol mai ei rôl ef oedd darparu fframwaith a oedd yn caniatáu i lywodraeth leol gyflwyno amcanion cynaliadwyedd ond mai cyfrifoldeb y Gweinidogion eraill oedd cyflawni'r amcanion hynny.

Er nad yw diffyg targedau penodol ar gyfer yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn broblem ynddi'i hun o angenrheidrwydd, mae'r Pwyllgor yn credu bod absenoldeb unrhyw ddata'n mesur perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â chynaliadwyedd, neu dystiolaeth i ddangos beth sy'n cael ei wneud i hybu newid mewn ymddygiad ar lefel leol, yn broblem.

**Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn datblygu cyfres o ddangosyddion cynaliadwyedd ar gyfer llywodraeth leol ac yn monitro cynnydd yr awdurdodau lleol yn erbyn y rhain yn rheolaidd.**

Yn ei adroddiad yn 2008, mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch y ffaith 'nad oedd yn ymddangos bod cyswllt uniongyrchol rhwng yr angen am gyflawni amcanion cynaliadwyedd y Llywodraeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn ystod cylchoedd y gyllideb'. Ni dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth yn ystod y sesiynau mwy diweddar a oedd yn awgrymu bod gwelliant wedi digwydd yn y cyswllt hwn.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn am ddryswch ymddangosiadol y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ynghylch i ba raddau yr oedd cyllideb fwyaf diweddar Llywodraeth Cymru wedi'i hasesu o ran ei heffaith ar gynaliadwyedd.

Er bod y Gweinidog wedi awgrymu'n wreiddiol bod asesiad o'r fath wedi cael ei wneud, gwelwyd nad oedd hynny wedi digwydd. Y gyllideb o bosibl yw'r adnodd mwyaf pwerus er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion cynaliadwyedd, ac mae'r Pwyllgor yn eithriadol bryderus nad oes unrhyw asesiad cynhwysfawr yn cael ei wneud o'r penderfyniadau gwariant mewn perthynas â chynaliadwyedd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r sefyllfa berthnasol i gydraddoldeb, sydd wedi cael asesiad llawn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyllideb Llywodraeth Cymru'n cael ei hasesu'n llawn yn y dyfodol o ran ei heffaith ar gynaliadwyedd, a bod canlyniadau'r asesiad hwn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft.**

**Mesur Canlyniadau – beth sy'n cael ei gyflawni?**

Unwaith eto, clywsom dystiolaeth gan nifer o'r Gweinidogion am y camau gweithredu maent yn eu cymryd er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy yn eu portffolios. Roedd y Pwyllgor yn llawn edmygedd, er enghraifft, o'r enghreifftiau ymarferol a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ysbytai'n cynhyrchu 9% o'u hynni o beiriannau gwres a phŵer cyfun, a'r enghraifft a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Dreftadaeth o Cadw wedi gostwng ei allyriadau carbon 50% drwy osod golau ynni isel yn ei safleoedd.

Roedd y Pwyllgor yn hynod falch o glywed gan sawl Gweinidog am y gwaith sy'n cael ei wneud ar gaffael lleol a chynaliadwy, yn cynnwys y gwaith drwy gyfrwng ffrwd 'caffael cydweithredol' y Bwrdd Ynni ac Effeithlonrwydd. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb bod y gyfran o fusnes y sector cyhoeddus sy'n cael ei hennill gan gwmnïau o Gymru wedi codi o 35% yn 2004 i ychydig dros 50% heddiw.

Cred y Pwyllgor bod caffael lleol yn gaffael cynaliadwy, a bod cynyddu'r gyfran o ddeunyddiau a chynhyrchion o ffynonellau lleol yn ffordd effeithiol o leihau allyriadau carbon ac o gyfrannu at economi gynaliadwy.

**Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ddyblu ei ymdrechion i gefnogi caffael lleol ledled y sector cyhoeddus, ac i ddatblygu dulliau arloesol o wneud hyn oddi mewn i gyfyngiadau'r Undeb Ewropeaidd.**

Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y diffyg tystiolaeth yn y portffolios i awgrymu bod mesurau digonol yn eu lle er mwyn gwerthuso canlyniadau'r polisïau a'r prosiectau wrth iddynt gyflawni amcanion cynaliadwyedd.

Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi'n fawr wrth edrych ar y dystiolaeth a dderbyniodd i ddangos bod Adnodd Integreiddio'r Porth Polisïau'n cael rhyw effaith ar ddatblygu polisïau, yn cynnwys yr enghreifftiau pendant o sut mae polisïau wedi cael eu diwygio i wella eu cyfraniad at gynaliadwyedd a gyflwynwyd gan swyddogion o'r Adran Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth. Fodd bynnag, unwaith eto, nid ydym wedi derbyn unrhyw dystiolaeth am bolisïau'n cael eu gwerthuso er mwyn asesu a ydynt yn cyflawni'r canlyniadau a ragdybiwyd gan asesiad Adnodd Integreiddio'r Porth Polisïau.

## Lleihau carbon a'r targed o 3%

Mae dogfen Cymru'n Un yn datgan y canlynol:

> Byddwn yn anelu i sicrhau lleihad yn yr allyriadau carbon blynyddol sy'n gyfwerth â 3% y flwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli. Byddwn yn pennu targedau penodol fesul sector yn y meysydd preswyl, cyhoeddus a thrafnidiaeth.[1]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd am y ffaith nad yw rhai adrannau yn Llywodraeth Cymru'n barod ar gyfer y dyddiad targed o 2011. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor na fyddai adroddiad ar ôl troed carbon y GIG yng Nghymru, a fyddai'n sail ar gyfer strategaeth carbon isel, ar gael tan fis Chwefror eleni. Yn yr un modd, dywedodd swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wrthym na fyddai'r fframwaith ar gyfer mesur effaith datblygiad economaidd ar gynaliadwyedd ar gael tan fis Mawrth.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus hefyd mai dim ond y Gweinidog dros Faterion Gwledig a swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth allai ddweud wrth y Pwyllgor pa gyfran yn union o'r targed o 3% y byddent hwy'n gyfrifol amdani. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wrth y Pwyllgor bod targedau Adrannol yn bodoli ond ni allai roi ffigur, a dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth nad oedd yn sicr a oedd gan ei Adran unrhyw dargedau penodol ai peidio.

**Rydym yn argymell pennu a chyhoeddi targedau clir ar gyfer cyfrannu at y lleihad o 3% mewn allyriadau carbon ar gyfer pob Adran yn Llywodraeth Cymru.**

## Casgliadau

Er gwaetha'r dystiolaeth gynyddol o ymgysylltu er 2008, mae'r Pwyllgor yn bryderus o hyd am y diffyg ymgysylltu â datblygiadau cynaliadwy ymhlith rhai Gweinidogion, a'r diffyg o ran ei brif-ffrydio'n gyffredinol yn rhan o bortffolios y Llywodraeth.

Rydym yn hynod bryderus bod llawer o Adrannau'n dal i weithio ar sicrhau data llinell sylfaen ar gyfer allyriadau carbon, a bod llawer o Weinidogion yn ansicr ynghylch eu targedau eu hunain ar gyfer allyriadau carbon.

---

[1] Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru – 2007 - http://new.wales.gov.uk/about/strategy/publications/onewales/?lang=en

Mae’r Pwyllgor yn bryderus hefyd nad oes unrhyw asesiad priodol wedi’i gynnal yn ôl pob tebyg o effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gynaliadwyedd.

Anogwn y Llywodraeth i dderbyn ein darganfyddiadau a’n hargymhellion diweddaraf ac i sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn flaenoriaeth i’r Llywodraeth a ddaw i rym wedi Etholiad y Cynulliad fis Mai 2011.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AC**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

**Atodiad A**

**Prif-ffrydio cynaliadwyedd mewn portffolios Gweinidogaethol – 10 mlynedd o'r ddyletswydd statudol.**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Fis Tachwedd 2008, cytunodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i graffu ar y modd y mae Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n prif-ffrydio cynaliadwyedd yn eu portffolios.

1.2 Mynychodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru neu eu swyddogion bwyllgor i gyflwyno tystiolaeth ar y dyddiadau a ganlyn:

- **5 Mawrth 2009**
  - Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai;
  - Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai
- **19 Mawrth 2009**
  - Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol;
  - Swyddogion o'r Adran Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus;
  - Swyddogion o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 2 Ebrill 2009
  - Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig;
  - Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
  - John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau;
  - Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth;
  - Swyddogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
- 10 Mehefin 2009
  - Ieuan Wyn-Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## 2. Cefndir

2.1 Ers sefydlu'r Cynulliad yn 1998, mae wedi bod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu datblygiad cynaliadwy wrth ymarfer eu swyddogaethau drwy gyfrwng dwy Ddeddf Llywodraeth Cymru (1998 a 2006).

2.2 Mae Dechrau Byw'n Wahanol, Cynllun Datblygiad Cynaliadwy cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd yn 2006, yn pwysleisio'r angen am brif-ffrydio cynaliadwyedd yn holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru:

> I gyflawni ei ymrwymiadau cyfreithiol, rhaid i egwyddorion datblygu cynaliadwy fod yn rhan brif ffrwd o'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu a bydd angen cydymffurfio ar draws amcanion a phrosesau.[2]

2.3 Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 5 Mawrth 2009, dywedodd Jane Davidson bod y cabinet wedi cytuno:

> i'r syniad y dylai datblygiad cynaliadwy fod yn egwyddor drefniadaethol unigol, allweddol nid yn unig gan Lywodraeth y Cynulliad ond gan y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.[3]

---

[2] Dechrau Byw'n Wahanol – y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 2006. http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/startlivedifferently/?lang=en

fel elfen sylfaenol o gynllun datblygiad cynaliadwy newydd Llywodraeth Cymru, Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned, a gyhoeddwyd fis Mai 2009.

**Y materion yn codi o Graffu ar y Gweinidogion**

## 3. Cyflwyniad

3.1 Roedd cryn amrywiaeth yn y dystiolaeth a gawsom gan y Gweinidogion a'r swyddogion a fynychodd y pwyllgorau. Yn rhannol, adlewyrchai hyn lefel y dylanwad ar y cyrff cyflawni sydd ar gael i bob gweinidog drwy gyfrwng eu swyddogaethau portffolio. Rydym yn teimlo, fodd bynnag, nad dyma'r prif reswm dros y diffyg ymgysylltu ymddangosiadol â'r agenda cynaliadwyedd ymhlith rhai gweinidogion.

3.2 Hefyd, fe hoffem ddweud yn y fan hon na chafodd ein barn am safon y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym ei lliwio gan ba un ai yr oedd yn cael ei chyflwyno gan y Gweinidogion neu'r swyddogion. Yn wir, dangosodd y dystiolaeth a gafodd ei hystyried gennym ni fod yr ymgysylltu mwyaf â'r agenda cynaliadwyedd a'r gwerthusiad mwyaf realistig o gyflawniadau a chynnydd yn digwydd ymhlith swyddogion yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, adran nad oedd ei Gweinidog yn gallu mynychu'r cyfarfod.

## 4. Egluro swyddogaethau - pwy sy'n gyfrifol am beth?

4.1 Un thema oedd yn bresennol drwy gydol y sesiynau oedd yr angen am egluro cyfrifoldebau rhwng portffolios gweinidogaethol.

4.2 Roedd yn ymddangos bod nifer o'r Gweinidogion yn aneglur ynghylch eu rôl o ran cyflawni amcanion cynaliadwyedd yn eu portffolios ac ynghylch cyfrifoldebau'r Gweinidogion eraill am feysydd lle'r oedd y portffolios yn gorgyffwrdd. Nid yw'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gyfrifol am eco-ysgolion yn ei phortffolio hi ac roedd y llinellau cyfrifoldeb am gyflawni canlyniadau cynaliadwyedd rhwng ei phortffolio hi a phortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn anodd iawn i'w sefydlu.

4.3 Roeddem yn hynod siomedig â thystiolaeth yr Adran Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Er enghraifft, meddai Brian Gibbons wrth y Pwyllgor:

> Does gen i ddim cyfrifoldeb portffolio uniongyrchol am hyrwyddwyr bioamrywiaeth. Dydi o ddim yn rhywbeth yr ydw i'n ymgysylltu ag o fel rhan o'm portffolio i.

4.4 Er ein bod yn derbyn mai Gweinidogion eraill sy'n gyfrifol am feysydd penodol o lywodraeth leol, fel addysg a thai a reolir gan yr awdurdod lleol, rydym yn credu y dylai'r portffolios Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol fabwysiadu swyddogaeth arwain a chydlynu o ran pennu fframwaith cyffredinol i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn cyflawni eu dyletswyddau oddi mewn iddo. Credwn fod hyn yn cynnwys rhoi arweiniad a chyfarwyddyd clir ynghylch disgwyliadau a gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chynaliadwyedd.

4.5 Hefyd, er bod y Gweinidogion wedi dynodi nad yw'n ymddangos fel pe bai gan gyfiawnder cymdeithasol a chyllid lawer o gyswllt uniongyrchol â chynaliadwyedd, mae hyn yn mynd yn groes i'r egwyddor y dylai datblygiad cynaliadwy fod yn

---

[3] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas/sc20090305qv.pdf?langoption=3&ttl=SC%283%29-05-09%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20181kb%29

egwyddor drefniadaethol allweddol, unigol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae pwysigrwydd sicrhau bod pob gweithred a wneir gan y Llywodraeth yn cyfrannu at yr agenda cynaliadwyedd ac yn ymateb i'r agenda newid yn yr hinsawdd a bwysleisiwyd gan Jane Davidson yn ei thystiolaeth yn golygu y dylid ffurfio cyswllt clir rhwng cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd a'r polisïau oddi mewn i bob portffolio.

4.6 O ran y cyllid, er ein bod yn croesawu'r dystiolaeth a glywsom am gyllido mentrau cynaliadwyedd drwy gyfrwng y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol, roeddem yn bryderus nad oedd unrhyw gyswllt uniongyrchol i'w weld rhwng yr angen am gyflawni amcanion cynaliadwyedd y Cynulliad a'r broses o wneud penderfyniadau yn ystod cylchoedd y gyllideb. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog Cyllid chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod agenda cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei gyllido'n briodol ym mhob portffolio. Gyda chymorth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, rydym yn ystyried y gellid datblygu rhyw fath o adnodd asesu cynaliadwyedd sy'n cwestiynu canlyniadau cynaliadwyedd y cais cyllido ar gyfer pob adran.

**Rydym yn argymell bod pob Gweinidog yn edrych yn fanwl ar eu portffolio ac yn sefydlu cyswllt clir rhwng eu cyfrifoldebau portffolio a datblygiad cynaliadwy.**

**Rydym yn argymell cytuno ar y cyswllt hwn â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'i gyhoeddi yng ngwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

## 5. Mesur Canlyniadau – beth sy'n cael ei gyflawni?

5.1 Clywsom dystiolaeth gan nifer o Weinidogion am y camau gweithredu maent yn eu cymryd er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy yn eu portffolios.

5.2 Yn arbennig, roeddem yn falch iawn o glywed gan Jane Hutt am fonitro prosiectau adeiladu ysgolion a'r ffaith ei bod yn derbyn bod angen gwneud mwy: "

> Mae mwy i'w wneud mewn partneriaeth â llywodraeth leol er mwyn monitro effaith hyn oherwydd, fel rydych yn dweud, mae'n rhaid iddo fynd y tu hwnt i ddim ond ticio'r blwch o ran cyflawni safon 'ragorol' BREEAM.

Er ein bod yn croesawu'r camau gweithredu hyn, rydym yn pryderu am y diffyg tystiolaeth yn y portffolios i awgrymu bod mesurau digonol yn eu lle er mwyn gwerthuso canlyniadau'r polisïau a'r prosiectau wrth iddynt gyflawni amcanion cynaliadwyedd.

5.3 Rydym hefyd yn pryderu am y diffyg tystiolaeth am effeithiolrwydd Adnodd y Porth Polisïau. Ychydig iawn o Weinidogion oedd yn gallu dweud wrthym faint o'u polisïau oedd wedi cael eu safoni'n gadarnhaol o ran canlyniadau cynaliadwyedd drwy gyfrwng y porth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth am faint o bolisïau oedd wedi cael eu gwrthod neu eu diwygio oherwydd eu heffaith negyddol ar ddatblygiad cynaliadwy.

5.4 Roeddem yn bryderus hefyd am nad yw'n ymddangos bod unrhyw werthusiad wedi cael ei wneud i weld a yw'r polisi'n cyflawni'r canlyniadau a ragdybiwyd yn asesiad adnodd integreiddio'r porth polisïau.

5.5 Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Adrannau Cyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Economi a Thrafnidiaeth; a'r Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol er mwyn datblygu adnoddau asesu cynaliadwyedd ac rydym yn credu y dylid ehangu hyn i gynnwys holl adrannau'r llywodraeth.

**Rydym yn argymell datblygu adnodd er mwyn mesur canlyniadau polisïau o ran datblygiad cynaliadwy.**

**Rydym yn argymell cyhoeddi'r canlyniadau hyn ar gyfer pob adran, fel rhan o'r adroddiad blynyddol statudol i'r Cynulliad.**

**Rydym yn argymell y dylai pob adran ddatblygu eu hadnoddau asesu cynaliadwyedd eu hunain ar y cyd â'r Adran Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.**

## 6. Lleihau carbon a'r targed o 3%

6.1 Mae dogfen Cymru'n Un yn datgan y canlynol:

> Byddwn yn anelu i sicrhau lleihad yn yr allyriadau carbon blynyddol sy'n gyfwerth â 3% y flwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli. Byddwn yn pennu targedau penodol fesul sector yn y meysydd preswyl, cyhoeddus a thrafnidiaeth.[4]

6.2 Roeddem yn bryderus ynghylch y ffaith nad oedd rhai o adrannau Llywodraeth Cymru'n barod am y dyddiad targed o 2011. Er enghraifft, clywsom fod yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'n dal i weithio ar sicrhau data llinell sylfaen a'u bod yn ansicr ynghylch pryd fyddent yn cael eu cyhoeddi.

6.3 Mae gennym bryderon difrifol am y diffyg eglurder ynghylch sut i sefydlu llinellau sylfaen mewn sawl adran, a'r ddibyniaeth ymddangosiadol ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ddangos i lawer o adrannau sut i fynd ati i gasglu data. Awgrymodd yr Adran Materion Gwledig bod nifer o faterion yn ei gwneud yn anodd i wybodaeth llinell sylfaen gael ei chasglu yn eu portffolio, yn cynnwys yr ystod o ffynonellau gwybodaeth a'r elfennau dieithr, o ran sut i fesur allyriadau, yn enwedig ocsid nitraidd. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer casglu'r wybodaeth hon, er mwyn sicrhau mesur effeithiol.

6.4 Roedd diffyg eglurder hefyd ynghylch pa bortffolios fydd yn gyfrifol am gyflawni rhai o'r targedau ar gyfer allyriadau. Er enghraifft, nid oedd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau na'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn derbyn cyfrifoldeb llawn am allyriadau carbon ac roedd y naill a'r llall yn honni mai'r llall fyddai'n gyfrifol. Nid yw'n glir chwaith pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r targedau lleihau carbon ar gyfer y sector cyhoeddus.

6.5 Yn ystod ein hymchwiliad diweddar i leihau carbon yng Nghymru, er eu bod yn croesawu'r targed o 3% ar gyfer lleihau carbon, galwodd nifer o sefydliadau am arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â lleihau carbon.

6.6. Mae gennym amheuon difrifol am allu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r lleihad o 3% o 2011 ymlaen o ystyried y diffyg ymgysylltu ar ran rhai aelodau cabinet â'r agenda lleihau carbon a'r diffyg eglurder o ran cyfrifoldebau.

6.7 Roeddem yn falch o glywed gan y Gweinidog Treftadaeth am fonitro allyriadau $CO_2$ o'r diwydiant twristiaeth. Roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan ei adran ef. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn annog ymestyn hyn i gynnwys yr allyriadau teithio i ac o safleoedd twristaidd. Mae'r pwynt hwn yn pwysleisio ymhellach yr angen am egluro'r cyfrifoldebau rhwng adrannau, oherwydd mae'n aneglur a ddylai monitro allyriadau teithio i safleoedd treftadaeth fod yn gyfrifoldeb y Gweinidog dros Dreftadaeth ynteu'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

---

[4] Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru – 2007 - http://new.wales.gov.uk/about/strategy/publications/onewales/?lang=en

**Rydym yn argymell sicrhau cytundeb ymhlith aelodau'r cabinet ynghylch pwy sy'n gyfrifol ac felly'n atebol am y meysydd amrywiol sy'n berthnasol i allyriadau carbon.**

**Rydym yn argymell cyhoeddi'r meysydd cyfrifoldeb hyn yng ngwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod pob gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn yn flynyddol.**

**7. Enghreifftiau o arferion da**

7.1 Fe hoffem gydnabod yr enghreifftiau o arferion da a ddangoswyd i ni yn ystod yr ymchwiliad.

7.2 Llwyddodd sawl adran i ddangos dealltwriaeth o'r materion perthnasol i ddatblygiad cynaliadwy a chafwyd enghreifftiau gan y rhan fwyaf o'r Gweinidogion o bolisïau a rhaglenni a oedd yn cynnwys elfen o ddatblygiad cynaliadwy.

7.2 Roeddem yn croesawu'r dystiolaeth glir ac eglur a gyflwynwyd gan swyddogion yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn y portffolio er mwyn integreiddio cynaliadwyedd, fel datblygu'r pecyn adnoddau a'r cynnydd tuag at gyflawni'r llinell sylfaen ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Yn arbennig, roeddem yn falch iawn o glywed am y ffyrdd arloesol o ddefnyddio technoleg i roi sylw i'r broblem, drwy ddatblygiadau fel telefeddygaeth.

7.3 Dangosodd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig raddau helaeth iawn o ymgysylltu â'r agenda cynaliadwyedd a hefyd cydnabyddiaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella. Yn arbennig, rydym yn croesawu'r ffaith ei bod wedi cytuno i ystyried awgrymiadau'r pwyllgor ynghylch ffurfio cyswllt rhwng y Strategaeth Swyddi Gwyrdd a'i thrafodaethau Echel 3, sydd ar y gorwel.

**Rydym yn argymell defnyddio dull gweithredu'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r agendâu datblygiad cynaliadwy a lleihau carbon fel model i adrannau eraill.**

**8. Casgliadau**

8.1 Er ein bod wedi gweld enghreifftiau o arferion da, rydym yn bryderus am y diffyg ymgysylltu â datblygiadau cynaliadwy ymhlith rhai Gweinidogion, a'r diffyg o ran ei brif-ffrydio'n gyffredinol yn rhan o bortffolios y Llywodraeth.

8.2 Rydym yn bryderus iawn bod prif-ffrydio cynaliadwyedd yn broblem o hyd, ddeng mlynedd wedi cyflwyno'r ddyletswydd statudol i'r Cynulliad. Rydym yn credu bod y cynnydd gyda phrif-ffrydio wedi bod yn araf, gan ddibynnu gormod ar weinidogion unigol i fwrw'r agenda cynaliadwyedd yn ei flaen.

8.3 Cytunir yn gyffredinol bod angen gweithredu ar frys mewn perthynas â materion newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Rydym yn creu bod y gallu i ffurfio cyswllt rhwng yr holl gamau gweithredu a gymerir, er mwyn sylw i'r materion hyn ac i sicrhau manteision ym mhob un portffolio, yn hanfodol bwysig ac y dylid cyflawni hynny cyn gynted ag y bo modd.